Adroddiad i'r	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad y cyfarfod	2 Hydref 2020
Aelod/Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Richard Mainon / Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Awdur yr Adroddiad	Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Teitl	Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol a Phenodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â phwyllgorau.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Mae blwyddyn newydd y Cyngor wedi cael ei oedi eleni yn sgil canslo'r cyfarfod o ganlyniad i bandemig y coronafeirws COVID-19. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Hydref yn hytrach na mis Mai. Mae'n briodol i'r pwyllgor ystyried newidiadau mewn cydbwysedd gwleidyddol a bod yn ymwybodol o drefniadau cadeiryddion Craffu.

2.2 Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 46 aelod etholedig gyda swydd wag ar gyfer ward Corwen, yn dilyn marwolaeth y Cynghorydd Huw Jones fis Chwefror. Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 yn gohirio isetholiadau cynghorwyr tan y cyfnod 1 Chwefror 2021 a 16 Ebrill 2021.

3. Beth yw’r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried safle cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi pwyllgor.

4. Manylion yr Adroddiad

COVID-19 a Chyfarfod Blynyddol y Cyngor

4.1 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ym mis Ebrill 2020. Roedd y mesurau a roddodd Llywodraeth Cymru yn eu lle i fynd i’r afael â COVID-19 yn cynnwys newidiadau i ganiatáu cyfarfodydd pwyllgor o gartref er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd a busnes yn gallu parhau mewn amgylchedd oedd yn ddiogel i aelodau etholedig, swyddogion a’r cyhoedd.

4.2 Roedd y rheoliadau yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol i gynnal eu cyfarfodydd blynyddol, ar yr amod bod cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal ar rhyw adeg yn 2020. Cyfarfod y Cyngor ar 13 Hydref fydd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol

4.3 Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau cefnogol yn gwneud darpariaeth ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol yn aelodaeth y Cyngor i gael ei adlewyrchu yn yr aelodaeth o bwyllgorau'r Cyngor (er nad yw’r Cabinet yn cael ei gynnwys yn y gofyniad hwn o’r Ddeddf).

4.4 Mae aelodau’r Cyngor wedi eu rhannu yn grwpiau gwleidyddol gwahanol, gyda grŵp yn ddau neu fwy o gynghorwyr sydd yn arwyddo hysbysiad i’r awdurdod yn datgan eu bod yn dymuno cael eu cofnodi fel bod yn aelod o grŵp penodol. Mae rhwymedigaeth ar y Cyngor i sicrhau fod y nifer o seddi ar bwyllgorau penodol (y rheiny wedi'u hadnabod yn ôl statud) wedi eu dyrannu i bob grŵp gwleidyddol yn yr un gyfran â’r nifer o aelodau ym mhob grŵp o aelodaeth y Cyngor. Er enghraifft, os yw aelodaeth Grŵp A yn cynrychioli traean o aelodau'r Cyngor, byddai Grŵp A yn cael traean o'r seddi ar y pwyllgorau sydd yn gorfod cael cydbwysedd wleidyddol. Mae modd rhoi'r

gofyniad i un ochr ar yr amod na fydd aelod o'r Cyngor yn pleidleisio yn erbyn gwneud hynny.

4.5 Mae angen i’r Cyngor ystyried o leiaf yn flynyddol sut y mae aelodaeth ei bwyllgorau yn berthnasol i faint y grwpiau. Dangosir ffigurau cydbwysedd gwleidyddol ac aelodaeth y pwyllgorau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn yn atodiadau 1 a 2 yn y drefn honno.

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

4.6 Mae Adran 11 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn mynnu bod y Cyngor yn penodi pwyllgor i adolygu pa mor ddigonol yw darpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, gofod ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

4.7 Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gael eu penodi gan y Cyngor Llawn. Ni fydd unrhyw aelodau cyfetholedig. O dan y Mesur ni fydd mwy nag un aelod o'r Cabinet ar y Pwyllgor (ac ni all fod yr Arweinydd), ond penderfynodd y Cyngor ym mis Mai 2012 y byddai'r aelodaeth yn 11 o gynghorwyr ac ni fyddai'n cynnwys aelodau o'r Cabinet.

4.8 Rhaid i'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys a rhaid i’r Cyngor benodi cadeirydd sydd ddim yn aelod o unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cabinet. Yn Sir Ddinbych, mae hyn yn golygu y bydd y cadeirydd yn aelod o’r grŵp Llafur neu Blaid Cymru. Y cadeirydd presennol yw'r Cynghorydd Alan James a bydd angen iddo ymddiswyddo o'i rôl ar y pwyllgor ar ôl iddo gael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2021.

4.9 Nodir aelodau presennol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn atodiad 2.

Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu

4.10 Yn ôl egwyddorion ar gyfer dyrannu cadeiryddion Craffu, ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 bydd gan y Grwpiau a gynrychiolir yn y Cabinet

(Annibynnol a Cheidwadwyr), yr hawl i gadeirio 1 o'r 3 pwyllgor craffu, a bydd y grwpiau hynny'n penderfynu ymysg ei gilydd pa un o'u haelodau cymwys fydd yn gadeirydd. Mae Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru â'r hawl i benodi 1 cadeirydd craffu'r un.

4.11 Nid yw'r Mesur na'r canllawiau statudol cysylltiedig yn gwneud darpariaethau ar gyfer newid neu ail-benodi cadeiryddion craffu, ac eithrio pan fo'r cyfansoddiad gwleidyddol yn newid yn y Cabinet neu lle mae swydd cadeirydd craffu yn wag am ryw reswm. Felly mae penodi cadeiryddion am y flwyddyn ddinesig newydd yn fater i'r grwpiau gwleidyddol i'w ystyried ac i roi gwybod am unrhyw newidiadau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae trefniadau cydbwysedd gwleidyddol yn ganolog i'r systemau democrataidd a phwyllgorau sy'n elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau a nodwyd yn codi o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn i gynnal adolygiad blynyddol o ddyraniad seddi pwyllgor yn unol â gofynion cydbwysedd gwleidyddol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Bydd y Cyngor Llawn ystyried adroddiad tebyg yn ei gyfarfod ar 13 Hydref ac fe fydd sylwadau perthnasol yn cael eu hadrodd i'r Cyngor. Ymgynghorir â'r grwpiau gwleidyddol ar aelodaeth pwyllgorau a materion cydbwysedd gwleidyddol pryd bynnag y bydd materion yn codi, er enghraifft i lenwi swyddi gwag ar bwyllgorau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Byddai methu ag adolygu aelodaeth pwyllgorau, llenwi swyddi gwag ac ati, yn niweidiol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn mynd yn groes i ofynion statudol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011; Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972